TIRLUN

# MAPIO EIN HARDAL LEOL

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau ymgysylltiol rydych yn eu cynnig. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau cyfannol y dysgwyr (creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Dylech ganolbwyntio ar pam mae dysgu'n bwysig a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybrau y gellid eu dilyn wrth fynd drwy'r gweithgaredd. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull gweithredu yn unol ag anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae'r dysgwyr yn defnyddio mapiau a delweddau lloeren i archwilio eu hysgol a'r ardal leol, gan ddewis lle penodol y gallent gerdded iddo o'r ysgol. Maent yn defnyddio'r ddelwedd lloeren i ystyried llwybrau, pellteroedd a chyfeiriadau, gan gofnodi cyfarwyddiadau syml y gallai rhywun arall eu dilyn. Mae'r dysgwyr yn dilyn cyfarwyddiadau grŵp arall ac yn myfyrio ar y dasg.

Maent yn defnyddio map i ddod o hyd i nodweddion arbennig yr ardal leol a'u rhestru, gan ddewis un nodwedd er mwyn ei hymchwilio. Mae'r dysgwyr yn ymweld â'r lle arbennig hwn er mwyn darganfod mwy amdano ac yn creu arddangosfa sy'n ffurfio rhan o arddangosfa dosbarth, gan annog eraill i ymweld â'r ardal leol er mwyn gweld a dysgu am ei nodweddion arbennig. Maent yn casglu adborth gan gynulleidfa wadd.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o gymryd ffotograffau (e.e. ffôn clyfar, tabledi, camerâu ac ati).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## CREU A DILYN CYFARWYDDIADAU

Mae'r dysgwyr yn defnyddio delweddau i archwilio beth yw map ac yn defnyddio Google Maps i ddod o hyd i ddelwedd lloeren o'u hysgol a'r ardal leol. Maent yn ystyried mannau cyfarwydd ac yn dod o hyd i dirnodau lleol, gan ddewis lle penodol y gallent gerdded iddo o'r ysgol. Mae'r dysgwyr yn defnyddio'r ddelwedd lloeren i:

- ddod o hyd i lwybr o'r ysgol i'r lle penodol a ddewiswyd ganddynt
- mesur y pellter
- disgrifio'r cyfarwyddiadau.

Gwahoddir y dysgwyr i gofnodi cyfarwyddiadau syml y gallai rhywun arall eu dilyn ac yna'u cyfnewid â grŵp arall. Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored a gofynnwch iddynt ddilyn y set o gyfarwyddiadau a grëwyd gan rywun arall er mwyn gweld ble maent yn cyrraedd. Anogwch nhw i fyfyrio ar y dasg ac ystyried pa welliannau y byddent yn eu gwneud i'r cyfarwyddiadau.

TASG 2

# ANNOG ERAILL I YMWELD Â'N HARDAL LEOL

Eglurwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i greu arddangosfa i annog eraill i ymweld â'r ardal leol, er mwyn gweld ei nodweddion arbennig a dysgu amdanynt. Mae'r dysgwyr yn dod o hyd i'r ddelwedd lloeren o'r ardal unwaith eto ac yn defnyddio'r gosodiadau i newid y ddelwedd lloeren yn fap. Maent yn defnyddio'r botwm chwyddo i ddod o hyd i nodweddion arbennig a'u rhestru, gan ystyried beth maent eisoes yn ei wybod am bob un ohonynt. Mae'r dysgwyr yn archwilio pwy fydd y gynulleidfa ar gyfer eu harddangosfa a beth efallai fydd disgwyliadau'r gynulleidfa hon. Maent yn dewis un nodwedd arbennig ac yn defnyddio'r map ac yn gwneud ymchwil ar-lein i ddarganfod mwy am y nodwedd hon a sut y gallent ei chynrychioli yn yr arddangosfa.

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i ymweld â'u nodwedd arbennig er mwyn cymryd ffotograffau, darganfod mwy o wybodaeth a gwirio cyfarwyddiadau ac ati. Maent yn creu'r arddangosfa ac yn gwahodd y gynulleidfa i ddod i'w gweld, gan gasglu eu barn am ba mor ddiddorol yw'r arddangosfa a beth a ddysgwyd ganddynt, ac ati.

## Dolenni defnyddiol

Yn y gweithgaredd hwn, gwahoddir y dysgwyr i ddefnyddio mapiau a delweddau lloeren i archwilio tir yr ysgol a'r ardal leol. Felly, bydd y gweithgaredd yn benodol i bob ysgol unigol, sy'n golygu nad yw'n bosibl darparu dolenni penodol ar gyfer pob Tirwedd Ddynodedig.

Fodd bynnag, mae mapio yn gysyniad allweddol yn y Cwricwlwm i Gymru oherwydd ei fod yn helpu dysgwyr i:

- ddeall ble mae pethau a pham eu bod yno
- datblygu sgiliau ymarferol a dadansoddol
- meddwl yn feirniadol am y byd
- cymhwyso gwybodaeth i sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Gallai'r dolenni canlynol fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwybodaeth gefndir neu ddatblygu tasgau pellach sy'n seiliedig ar fapio.

- How to use Google Maps for Kids - Diana Irene Saldana - YouTube (about six and a half minutes)
- Maps - BBC Teach (Saesneg yn unig)
- Primary school teaching resources - Teacher resources - Ordnance Survey (Saesneg yn unig)

- Map skills Year Two - RGS (Saesneg yn unig)
- How to read contours, keys and symbols – BBC Bitesize (Saesneg yn unig)
- Map symbols, direction and contour lines – BBC Bitesize (Saesneg yn unig)
- What is a map? – BBC Bitesize (Saesneg yn unig)

### Gweithgareddau defnyddiol eraill ar Tirlun

Mae cyfanswm o 84 o weithgareddau ar Tirlun sy'n cynnwys elfennau o ddefnyddio mapiau. Fodd bynnag, mae'r Gweithgaredd Allweddol canlynol yn enghraifft dda:

- Beth yw Tirwedd Ddynodedig?